# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Athro/Athrawes |
| **Cyfeirnod at Ddibenion Gwerthuso Swyddi** | Cytundeb: Cyfnod Penodedig<br>Dyddiad Dechrau 05/01/26<br>Oriau: 0.4 (2 ddiwrnod) |
| **Maes Gwasanaeth** | Addysg |
| **Graddfa SCP a Chyflog (yn amodol ar Werthuso Swyddi)** | Gradd athro/athrawes |
| **Diben y Swydd** | Mae Llywodraethwyr Ysgol Rhos Helyg yn awyddus i benodi Athro ymroddedig ac ysbrydoledig a fydd yn dysgu disgyblion Blynyddoedd 3-6. Croesawir ceisiadau gan ymarferwyr cynradd profiadol ar gyfer y swydd yma. |
| **Lleoliad** | Ysgol Rhos Helyg, Llangeitho/Bronant |
| **Oriau Gwaith** | 0.4 (2 ddiwrnod) |
| **Math o Gontract** | Cyfnod Penodedig |
| **Hyd y Contract** | |
| **Teitl swydd y Rheolwr Llinell Uniongyrchol** | Pennaeth |
| **Cyfrifoldebau Goruchwylio / Rheoli – os ydyw'n berthnasol** | |
| **Dyletswyddau a chyfrifoldebau** | **Prif gyfrifoldebau'r swydd hon yw:**<br><br>• addysgu disgyblion Blynyddoedd 3-6 Ysgol Rhos Helyg<br>• cydweithio i gynllunio, gweithredu a chyflwyno cwricwlwm sy'n eang, cytbwys, perthnasol ac wedi ei wahaniaethu ar gyfer disgyblion<br>• darparu safon addysg o'r radd flaenaf ynghyd â phrofiadau cyfoethog, yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru ac annog a chynnal pob disgybl i wireddu eu potensial<br>• monitro cynnydd cyflawn a datblygiad disgyblion yn unol â gofynion y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad o fewn Cwricwlwm i Gymru ynghyd â'r Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol, ac ymateb yn weithredol i'r canfyddiadau<br>• rhannu a chefnogi cyfrifoldeb yr ysgol i ddarparu a monitro cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol disgyblion a chefnogi eu twf academaidd<br>• cydweithio i gynllunio, darparu a chynnal gweithgareddau sy'n hybu diwylliant a Chymreictod<br><br>**Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol**<br>• deall y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc<br>• deall yr angen i wella sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm<br>• deall ADY er mwyn bodloni anghenion amrywiol dysgwyr<br><br>**Cynllunio a gosod targedau** |

| | |
|---|---|
| | • gosod amcanion addysgu a dysgu heriol sy'n cael eu harwain gan ddisgwyliadau deallus am ddysgwyr unigol yn seiliedig ar wybodaeth am safonau disgwyliedig y grŵp oedran hwnnw<br>• defnyddio'r amcanion addysgu a dysgu hyn i gynllunio gwersi, a chyfresi o wersi, sy'n dangos yn glir sut y bydd gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr yn cael eu hasesu<br>• personoli'r dysgu er mwyn rhoi sylw i anghenion unigol gan gynnwys ceisio barn y dysgwyr am beth fyddai o gymorth iddynt i gyflawni eu potensial<br>• pennu adnoddau i gefnogi'r dysgu a fydd yn ysgogi ac yn symbylu pob dysgwr i gyflawni'r deilliannau a ddymunir<br>• gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm a chydweithio â chydweithwyr i gynllunio gwaith a phennu targedau<br>• cynllunio er mwyn i'r staff cymorth gymryd rhan briodol yn y gwaith o gefnogi'r dysgu a sicrhau eu bod yn deall y rolau y mae disgwyl iddynt eu cyflawni<br>• cynllunio cyfleoedd priodol i blant a phobl ifanc ddysgu mewn lleoliadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth<br>• trefnu, rheoli a blaenoriaethu amser yn effeithiol o fewn rôl broffesiynol ehangach<br>• sefydlu a chynnal dulliau cyfathrebu effeithiol â phlant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr<br><br>**Monitro ac Asesu**<br>• defnyddio amrywiaeth o strategaethau monitro ac asesu, gan gynnwys asesiadau ffurfiannol a chyfunol, i werthuso cynnydd y dysgwyr tuag at gyflawni eu hamcanion dysgu, a defnyddio'r wybodaeth hon i wella eu gwaith cynllunio ac addysgu eu hunain<br>• bodloni'r gofynion a'r trefniadau asesu ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a chyfnodau y maen nhw'n eu dysgu, gan gynnwys paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau a chymwysterau cyhoeddus<br>• defnyddio technegau monitro ac asesu i nodi a chefnogi dysgwyr, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; dysgwyr sy'n fwy abl a thalentog, dysgwyr sy'n gweithio ar lefel is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed; dysgwyr sy'n methu â chyrraedd eu potensial; a dysgwyr ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol<br>• cynnwys dysgwyr yn y gwaith o osod targedau ac wrth bwyso a mesur eu perfformiad a'i werthuso<br>• monitro a chofnodi cynnydd a chyflawniadau dysgwyr i ddarparu tystiolaeth o ystod eu gwaith, eu cynnydd a'u cyrhaeddiad dros gyfnod o amser, gan ystyried cyfranogiad a safbwynt y dysgwr<br>• rhoi adborth cywir ac adeiladol i ddysgwyr ar eu cryfderau, eu gwendidau, eu cyrhaeddiad, eu cynnydd a'r meysydd i'w datblygu, gan gynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella<br>• rhoi adborth amserol, cywir ac adeiladol i gydweithwyr, rhieni a gofalwyr ar gyrhaeddiad dysgwyr, eu cynnydd, a'r meysydd i'w datblygu, gan ddefnyddio cofnodion ategol a thystiolaeth arall |

| | |
|---|---|
| | **Addysgu a rheoli dysgu**<br>• sefydlu a chynnal amgylcheddau dysgu effeithiol, lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel a hyderus<br>• dysgu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol a disgwyliedig sy'n berthnasol i anghenion y dysgwr, gan wneud defnydd priodol o'r canllawiau cenedlaethol perthnasol<br>• cynnig darpariaeth wedi'i phersonoli yn effeithiol wrth addysgu, gan gynnwys rhoi ystyriaeth ymarferol i amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant<br>• herio achosion o ragfarnu, stereoteipio, bwlio ac aflonyddu, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol<br>• dysgu gwersi neu gyfresi o waith ag iddynt strwythur clir fel bod pob dysgwr yn deall yr amcanion dysgu arfaethedig, ac yn eu bodloni<br>• defnyddio strategaethau addysgu priodol sy'n datblygu gallu pob dysgwr i weithio ar y cyd ac yn annibynnol<br>• datblygu ar amrywiol brofiadau, cyflawniadau a diddordebau'r dysgwyr i'w helpu i wneud cynnydd<br>• rheoli'r amser addysgu a dysgu yn effeithiol<br>• defnyddio strategaethau addysgu priodol i sicrhau ymddygiad cadarnhaol<br>• defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc<br>• defnyddio strategaethau addysgu priodol i hyrwyddo cynnydd a deilliannau da i ddysgwyr dros gyfnod estynedig o amser<br>• defnyddio TGCh yn effeithiol wrth addysgu a dysgu<br>• annog dysgwyr i wneud cynnydd annibynnol drwy ddarparu gweithgareddau neu gyfleoedd eraill i astudio y tu allan i oriau ysgol, sy'n ategu'r gwaith a wneir yn yr ysgol, ac yn ymestyn arno<br>• cydweithio ag athrawon a chydweithwyr eraill, gan gynnwys asiantaethau allanol i wella dysgu a lles y disgyblion y mae nhw'n eu haddysgu<br>• hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o natur ddwyieithog Cymru a datblygu eu sgiliau dwyieithog fel sy'n briodol<br><br>**Marchnata a chysylltiadau**<br>• cymryd rhan mewn nosweithiau agored a digwyddiadau cyswllt<br>• cyfrannu at ddatblygu cysylltiadau pynciol effeithiol gydag asiantaethau allanol a'r Sir<br><br>**Cyfarwyddo disgyblion**<br>• hybu cynnydd cyffredinol a lles disgyblion unigol yn ogystal â'r holl grŵp dosbarth a chynorthwyo disgyblion wrth osod targedau ar gyfer gwelliant<br>• cofrestru dysgwyr a'u hannog nhw i gyfrannu i agweddau eraill o fywyd yr Ysgol<br>• bod yn rhan o ddyletswyddau cyfnodau egwyl a chyfnodau casglu.<br>• cymryd rhan yn rhaglen datblygu staff trwy fod yn frwdfrydig |

| | |
|---|---|
| | am ddatblygiad parhaus proffesiynol |
| **Atebolrwydd** | Pennaeth |

# Manyleb Person

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Y cymwysterau academaidd/proffesiynol/ technegol/galwedigaethol (gan gynnwys Lefel y cymwysterau) sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | Athro/athrawes cymwysiedig.<br>Cymhwyster/Gradd berthnasol.<br>Sgiliau ysgrifenedig a chyflwyno ardderchog. | | | |
| **Lefel y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd (Gweler y canllawiau iaith a'r ceri \| net )** | Gweler y tabl isod.<br>**Nodyn:* ***<u>Bydd gofyn</u>*** *i'r ymgeisydd llwyddiannus ddysgu'r Gymraeg o fewn 2 flynedd o gael ei benodi os nad ydyw eisoes yn siarad Cymraeg.* | | | |
| | **Gwrando/ Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** | |
| **Saesneg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | 5 | 5 | 5 | **Hanfodol** |
| **Cymraeg (Lefelau Fframwaith ALTE)** | 5 | 5 | 5 | **Hanfodol*** |
| **Sgiliau ymarferol/personol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | Hysbyseb am Athro CA2 i Ysgol Rhos Helyg yw hon, ac mae'n ofynnol i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ysgrifenedig ac ar lafar ar gyfer y swydd.<br><br>• diwyd, hunan ddibynnol, trefnus, egnïol ac arloesol<br>• agwedd bositif a'r gallu i flaenoriaethu<br>• y gallu i sefydlu perthynas proffesiynol dda hefo staff, disgyblion, rhieni a grwpiau eraill<br>• ymglymiad at fywyd ehangach ysgol<br>• gallu i weithio yn effeithiol fel aelod o dîm<br>• sgiliau rhyngbersonol ardderchog<br>• gallu i gymell disgyblion i gyflawni eu potensial<br>• sgiliau trefnu a gweinyddu da – gallu cadw at amserlenni<br>• safon ardderchog o Gymraeg, a Saesneg ysgrifenedig | | | |
| **Profiad sy'n ofynnol ar gyfer y swydd** | • profiad o weithio â disgyblion o bob gallu<br>• athro/athrawes ardderchog sy'n gallu ysbrydoli disgyblion<br>• defnydd hyderus o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu | | | |
| **Hyfforddiant/addysg y mae'n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i'w cyflawni ar gyfer y swydd** | • cymryd rhan yn rhaglen datblygu staff trwy fod yn rhan o'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant pellach a datblygiad proffesiynol<br>• parhau gyda datblygiad personol yn y meysydd perthnasol gan gynnwys gwybodaeth am bynciau a dulliau addysgu<br>• ymrwymo'n weithredol i'r adolygiadau sy'n rhan o broses Rheoli Perfformiad yr Ysgol | | | |

| | |
|---|---|
| **Sgiliau/cymwysterau dymunol** | • profiad o addysgu dosbarth oedran cymysg<br>• lefelau brwdfrydedd a gwydnwch uchel<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes addysgu |